

Cynllun Adfer Natur Sir Benfro Wedi Lansio

Mae'r Cynllun Adfer Natur ar gyfer Sir Benfro yn gosod cyfres o amcanion a themâu a awgrymir i'w gweithredu er mwyn atal y lleihad mewn bioamrywiaeth a gwella gwydnwch ecosystemau yn ein sir. Mae'n defnyddio Cynllun Adfer Natur Cymru fel man dechrau, ond yn teiwra camau gweithredu i'r cyd-destun lleol.

Mae cyfres o gynlluniau gweithredu thematig sy'n cwmpasu sefyllfaoedd cyffredin megis daliadau amaethyddol, rhandiroedd a gerddi, ysgolion a gwersylloedd bellach wedi'u cynllunio i ddarparu gwybodaeth hygyrch.

Mae'r cynllun ar gael i'w lawrlwytho yma:
<https://www.pembrokeshire.gov.uk/biodiversity/pembrokeshire-nature-partnership-plans-and-guidance>

Ant Rogers
Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth



PEMBROKEESHIRE NATURE PARTNERSHIP



PARTNERIAETH NATUR SIR BENFRO

Cyrol 16 Rhifyn 1
Gwanwyn 2019

Yn y rhifyn hwn

Cynllun Adfer Natur Sir Benfro Wedi Lansio
Tudalen 1

 Creu Cynefinoedd yn Fferm Craig y Borion
Tudalennau 2—3

Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Pan wnaeth yr Ymddiriedolaeth Gwarchod
Cacwn gwrdd â phrosiect 'The People's
Orchard'

 Bumblebee
Conservation
Trust

Tudalennau 3—4



Adfer Ffogydd ar Gomin Dowrog
Tudalennau 4—5

Adroddiad Gwenyn dan Fygythiad Cymru
Tudalennau 5—6



Cod Morol Sir Benfro
Diwrnodau Hyfforddiant Amgylcheddol
Tudalennau 6—7

Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru
Tudalennau 7—8



Rheoli Mynwent Llanion ar gyfer Natur
Tudalen 9



Digwyddiadau
Tudalennau 10—11

Manylion Cysylltu
Tudalen 12

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 1



Creu Cynefinoedd yn Fferm Craig y Borion

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cael grant o £1,528 gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro er mwyn helpu gyda'n rhaglen o adfer a chreu cynefinoedd yn Colby ar fferm Craig y Borion. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol yr Hydref a'r Gaeaf. Hyd yn hyn, rydym wedi cynnal arolygon sylfaenol ar flodau gwyllt ac adar, ynghyd ag asesiad o gyflwr y pridd ac mae sesiynau cofnodi gwyfynod rheolaidd wedi cael eu sefydlu. Mae data ar rywogaethau presennol o wenydd wedi cael eu casglu. Nodwyd bod 10 rhywogaeth o ystlumod yn defnyddio coetir yr ystad ar hyn o bryd. Mae rhaglen samplu cicio rheolaidd yr Ymddiriedolaeth Afonydd o'r ddwy nant ar waith.

Mae clwydfannau ystlumod a adeiladwyd yn bwrpasol wedi cael eu cynnwys yng ngwersyll cychwyn a stordy coed ffermdy Little Craig-y-Borion.

Mae'r holl gatiau ar y caeau wedi cael eu hadfer er mwyn rheoli dwysedd stoc ar gyfer pori yn ystod y gaeaf.

Mae cyfanswm o 365m o wrychoedd wedi cael eu lledu i strybedi coetir 5m o led, gan gysylltu coedwigoedd Little Craig-y-Borion â choedwigoedd Craig-y-Borion er mwyn darparu coridorau i rywogaethau coetir a llwybrau hedfan cysgodol i ystlumod. Mae adeilad allan a oedd yn dymchwel ym Mhwl-y-Grippin wedi cael ei ailadeiladu a chafodd blwch tylluanod newydd ei osod ar gyfer tylluanod gwynion.



Plannu strybedi coetir

0.2ha o berllan wedi'i hadfer, gan ddefnyddio amrywiadau o hen afalau Cymreig. Mae 8.05ha

o gynefin nythu prysgwydd-coetir wedi cael ei greu mewn pum llain wedi'u gwasgaru ar draws y fferm, gan ddiogelu ansawdd dŵr nentydd yn y broses.



Gwirfoddolwyr yn plannu coed

Cafodd meithrinfa goed ei chreu yn 2018 ac rydym wedi dechrau tyfu ein tarddle lleol ein hunain o eginblanhigion, a gasgwylid o'r ystad, gan ganolbwyntio ar rywogaethau uchel ac amrywiaeth geneteg. Y nod yw cynnal cyfres o welliannau gwrychoedd, i gynhyrchu ecosystemau coetir a gwrychoedd cadarn, sy'n gwrthsefyll bygythiadau, â gwerth uchel i natur ar gyfer y dyfodol.

Cafodd tri llwybr troed eu creu er mwyn i'r cyhoedd allu defnyddio'r ffermdir (cyfanswm o fwy na 1km).

Mae cae braenar ag ymylon 5m a strybedi blodau gwyllt 10m o led wedi cael eu creu ar 1.986m o ymylon caeau. Mae hyn yn rhoi 3.98ha i ni o laswelltir llawn blodau gwyllt i'w gynaeafu yn ystod hydref 2019, 7.92ha yn 2020, ac ati. Dylem fod yn gallu adfer pob un o'r 12 o gaeau yn llwyr (65.7ha) ar ran ddeheuol y fferm, i fod yn ddolydd bioamrywiaeth uchel erbyn 2023.



Creu Dolydd



Mae pedwar cae arall wedi cael eu nodi erbyn hyn ar gyfer prosiectau creu coetir, gyda'r caeau sy'n weddill i gael eu hadfer i ddolydd bioamrywiaeth uchel gan ddefnyddio hadau o fferm Craig y Borion.

1. Gwella gwrychoedd 2019
2. Adfer dolydd 2017
3. Adfer dolydd 2019
4. Ymylon hadau adar 2019
5. Gwella gwrychoedd 2017
6. Coetir 2017
7. Gwella gwrychoedd 2017
8. Llwybr troed 2018
9. Perllan 2017
10. Perllan 2018
11. Adfer dolydd 2018
12. Prysgwydd/coetir 2017
13. Clwydydd ystlumod 2016
14. Cychod gwenyn 2018




**Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust**

Steve Whitehead
Yr Ymddiriedolaeth
Genedlaethol

Pan wnaeth yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn gwrdd â phrosiect 'The People's Orchard'

Yn nyfnderoedd Gorllewin Cymru, o gwmpas pentref prydferth Llandudoch, mae coed ffrwythau wedi bod yn ymddangos! Mae 'People's Orchard', a ariennir gan raglen "Pobl a Lleoedd" y Loteri Fawr, yn brosiect amgylcheddol sy'n cael ei rhedeg gan yr elusen gymunedol Hanes Llandoch, â'r nod o wella cynefinoedd ar gyfer pryfed sy'n peillio. Yn hanesyddol roedd Llandudoch yn enwog am ei holl berllannau, a blannwyd gan fynachod canoloesol yn y ddeuddegfed ganrif. Mae colli'r perllannau hyn a'r cynefinoedd yr oeddent yn eu cefnogi, wedi cyfrannu at gollu bioamrywiaeth a ddogfennwyd dros y ganrif ddiwethaf a datblygodd y weledigaeth ar gyfer y prosiect o'r hanes lleol uingryw hwn.

Er mwyn creu coridorau i bryfed, defnyddiwyd y 'llwybrau gwenyn' a gynlluniwyd gan Buglife fel sail ar gyfer plannu llawer o goed ffrwythau, ochr yn ochr â gweithgareddau gwella cynefinoedd eraill. Mynychodd Nia Siggins a Sophie Jenkins (Tîm Prosiect 'The People's Orchard'), ynghyd â c wirfoddolwyr ymrwymedig, sesiynau Adnabod yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn a diwrnod Gwybodaeth Beewalk ar ddechrau 2018.





Roeddem wrth ein bodd yn clywed eu bod wedi cynllunio pedwar Beewalk yn sgil hyn, fel rhan o 'The People's Orchard', gan gynnwys amrywiaeth o gynefinoedd a lleoliadau o fewn ardal y prosiect. Lluniwyd calendr a oedd yn cwrddu taith gerdded wahanol ar yr un diwrnod bob wythnos, a thrwy hynny cwrddwyd pob llwybr unwaith y mis fel y'i nodir yng nghanllawiau'r Beewalk. Cafwyd criw awyddus o wirfoddolwyr bob wythnos, er roedd Nia a Sophie yn drylwyr yn y gwaith o weithredu methodoleg benodol Beewalk, ac roeddent yn awyddus i sicrhau mai prif ddiben y teithiau cerdded hyn, ynghyd ag ymgysylltu â phobl leol a'u hysbysu, oedd cofnodi a chasglu data yn gywir. Erbyn diwedd mis Hydref 2018, cynhaliwyd 30 Beewalk, ac roedd tua 250 o wirfoddolwyr wedi bod yn bresennol. Mae'r tîm yn brysur ar hyn o bryd yn mewnosod eu data i wefan Beewalk ac rydym yn amcangyfrif y bydd cannoedd o gofnodion cacwn newydd!



Mae 'the Orchard project', gyda chefnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn, wedi cyfuno'r gwaith pellgyrhaeddol ac effeithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd, â gwaith cofnodi biolegol wedi'i dargedu a'i reoli'n ofalus. Maent wedi cyrraedd pobl o amrywiaeth o gefndiroedd, gan wahodd grwpiau penodol ar y Beewalk weithiau, gan gynnwys pobl ifanc sy'n gwella o gamddefnyddio sylweddau ac oedolion sy'n ymdopi ag anhawsterau iechyd meddwl. Mae eu hadborth wedi bod yn hynod gadarnhaol ac mae rhai o'u gwirfoddolwyr rheolaidd bellach wedi magu cymaint o hyder a brwdfrydedd fel eu bod yn cynllunio teithiau Beewalk eu hunain ar gyfer 2019. Bydd y data a gasglwyd ganddynt yn darparu gwybodaeth hanfodol am rywogaethau'r cacwn sy'n bresennol yn yr ardal â'r potensial i asesu'r newidiadau a all ddigwydd dros amser ac mewn ymateb i'w gweithgareddau creu cynefinoedd ysbrydoledig llawn ffrwythau.

Am ragor o wybodaeth am Beewalk, gweler: www.beewalk.org.uk. Mae gwefan prosiect 'The People's Orchard' yma: <http://www.stdogmaelsabbey.org.uk/peoplesorchard>

Clare Flynn

Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn



Adfer Ffosydd ar Gomin Dowrog

Mae ymdrechion helaeth gwirfoddolwyr wedi canolbwyntio ar warchodfa natur Comin Dowrog, eangder rhos gwlyb a sych 242 erw â phyllau a chrosdir yng ngorllewin Sir Benfro yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae hen ffos a oedd ar un adeg yn bwydo melin ar ymyl y warchodfa wrthi'n cael ei chlirio a'i hailagor. Er nad yw'r felin ar waith mwyach, mae'r ffos ei hun yn werthfawr o hyd i'r warchodfa ar gyfer symud dŵr drwy'r



safla a bwydo rhai o'r ardaloedd o ddŵr agored a geir yno. Mae'r ardaloedd hyn o ddŵr agored yn bwysig ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau, amffibiaid ac infertebratau dyfrol yn fwyaf nodedig ond hefyd ar gyfer planhigion dyfrol prin. Caiff y ddyfrffordd 600m ei adfer mewn rhannau 75m bob blwyddyn er mwyn peidio â chael effaith rhyfawr ar y rhywogaethau sy'n byw yn y sianel gorslyd ar hyn o bryd.

Gwirfoddolwyr yn clirio'r Ffesydd



Mae angen llawer o waith clirio'r prysgwydd mewn rhai ardaloedd er mwyn amlygu'r sianel a dyma ble mae gwirfoddolwyr yn chwarae rôl weithredol. Mae llwyni trwchus o ddraenen ddu, eithin a helygen yn cael eu clirio ac mae gwreiddiau'n cael eu tynnu o'r sianel. Unwaith y caiff y prysgwydd ei symud, cafwyd rhagor o gyllid er mwyn cyflogi contractwr i gael gwared ar y silt sydd wedi caglu gan ddefnyddio palwr. Dim ond dechrau prosiect yw hwn a fydd yn cymryd sawl blwyddyn i'w gwblhau ond gwelir y buddiannau i rywogaethau sy'n dibynnu ar ddŵr agored ar ôl i bob rhan gael ei chlirio.

Y palwr ar waith



Mae gwaith arall ar y warchodfa wedi cynnwys clirio eithin a phrysgwydd o ardaloedd agored o rostir er mwyn atal tresmasu ar y cynefin gwerthfawr hwn, gan sicrhau ar yr un pryd y caiff rhywfaint o gwft ei adael ar gyfer rhywogaethau o ymlusgiaid megis Gwibesod a Nadroedd llwyd.

Nathan Walton

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt
De a Gorllewin Cymru



Adroddiad Gwenyn dan Fygythiad Cymru

Mae gwenyn gwyllt (a pheillwyr eraill) yn wynebu llawer o bwysau yn ein tirweddau cyfoes – o gynefinoedd a gollir, sy'n darnio ac yn dirywio, i blaladdwyr a llygredd, newid yn yr hinsawdd, a chlefydau. Mae'r pwysau hyn wedi achosi dirywiad difrifol ym mhoblogaethau gwenyn gwyllt, gan godi pryderon am danbeillio llawer o flodau gwyllt a chnydau bwyd, a sefydlogrwydd bioamrywiaeth ac ecosystemau ehangach.

Mae Cymru'n gartref i boblogaethau pwysig o rywogaethau prin o wenydd a rhai sydd dan fygythiad ac, i rai, mae Cymru'n cynnal y poblogaethau hysbys olaf yn y DU. Fodd bynnag, bu pryder cynyddol ynghylch y ffaith bod rhywogaethau hyn yn prinhaus yng Nghymru. Gan ddefnyddio'r data a ddelir am The Bees, Wasps and Ants Recording Society (BWARS) a phedair Canolfan Cofnodion



Amgylcheddol Lleol Cymru, mae Buglife Cymru wedi lansio *Adroddiad Gwenyn dan Fygythiad Cymru* yn ddiweddar – yr adroddiad cyntaf o'i fath i archwilio statws y gwenyn sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf yng Nghymru.



Andrena marginata
Llun: Steven Falk

Er mawr dychryn, yn ôl yr adroddiad mae saith rhywogaeth o'n gwenyn eisoes wedi eu colli'n llwyr o Gymru, ac mae pum rhywogaeth arall mewn perygl o ddiflannu. Mae hyn yn cynnwys y Wenynen waed bigog (*Sphecodes spinulosus*) brin iawn y mae ei niferoedd wedi lleihau yn sylweddol, y mae bellach yn ymddangos ei bod yn gyfyngedig i un lleoliad yng Nghymru ym Mae Caer Bwdy, Sir Benfro. Ymhellach, mae nifer o rywogaethau eraill – megis y Wenynen durio glafylls fach (*Andrena marginata*) – wedi dioddef cyfyngiad sylweddol yn ei chwmpas, gan godi pryderon am ddyfodol y rhywogaethau hyn yng Nghymru.

Mae angen cymryd camau ar unwaith er mwyn adfer poblogaethau o wenyn gwyllt sy'n lleihau ac atal rhywogaethau eraill rhag diflannu yng Nghymru. Nod Adroddiad Gwenyn dan Fygythiad Cymru yw gwella ein dealltwriaeth o wenyn sydd dan fygythiad yng Nghymru (gan gynnwys eu cylch bywyd a'u dosbarthiad) er mwyn llywio ymdrechion cadwraeth lleol a chenedlaethol yn well. Mae'n argymhell cyfres o gamau gweithredu i gefnogi'r gwaith o warchod rhywogaethau sydd dan fygythiad ac sydd felly'n ffordd o gefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion a restrir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'n Menter Llwybr Gwenyn, gan helpu

gwenyn gwyllt a phryfed peillio eraill drwy gysylltu ac adfer cynefinoedd sy'n llawn blodau ledled cefn gwlad. Mae Llwybrau Gwenyn bellach wedi'u mapio ledled Cymru ac yn adnodd y gall unrhyw un ei ddefnyddio er mwyn blaenoriaethau a thargedu camau gweithredu ar y tir. Drwy gysylltu'r prosiectau hyn a gweithio gyda sefydliadau a thirfeddianwyr eraill, gallwn weithio tuag at wrthdroi'r lleihad yn niferoedd y gwenyn gwyllt yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth ac i lawrlwytho'r adroddiad hwn, ewch i <https://www.buglife.org.uk/adroddiad-gwenyn-dan-fygythiad-cymru>.

Liam Olds
Buglife Cymru



Cod Morol Sir Benfro Diwrnodau Hyfforddiant Amgylcheddol

Cyfle i ddysgu mwy am forlinau Sir Benfro, i fwynhau a rhannu...

Nod Cod Morol Sir Benfro yw annog pobl i barchu ac ystyried yr amgylchedd a bywyd gwyllt y môr drwy godau ymddygiad a chynghor ar sut i ymddwyn o gwmpas bywyd gwyllt a chyfyngiadau mynediad tymhorol ar gyfer lleoliadau penodol, sensitif. Mae'r cyfyngiadau mynediad y cytunwyd arnynt yn unigryw, wedi'u datblygu gan Fforwm Arfordir Sir Benfro â chyrrff cadwraeth, gweithredwyr cychod tywys a darparwyr gweithgareddau er mwyn lleihau'r aflonyddwch ar fywyd gwyllt i'r eithaf.

Mae Fforwm Arfordir Sir Benfro yn parhau i addysgu pobl am sut i leihau'r aflonyddwch ar fywyd gwyllt i'r eithaf a hoffem i chi ymuno â ni yn un o'n digwyddiadau hyfforddiant amgylcheddol yn 2019.



Bydd ein cyfres o ddigwyddiadau hyfforddiant amgylcheddol yn 2019 yn canolbwyntio ar adnabod bywyd gwyllt, lleoedd o ddiddordeb ar hyd ein harfordir trawiadol a chyflwyno ap Cod Morol Sir Benfro sydd am ddim. Mae'r ap yn rhoi'r holl godau ymddygiad a mapiau cyfyngiadau mynediad y cytunwyd arnynt mewn lle ac yn cynnig ffeithiau diddorol am fywyd gwyllt y gall defnyddwyr eu gweld wrth iddynt archwilio'r arfordir, gan roi'r gallu i chi roi gwybod am y bywyd gwyllt a welir. Helpwch ni drwy roi gwybod i ni am fywyd gwyllt a welir drwy'r Ap, a fydd yn darparu gwybodaeth bwysig i Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru.

Bydd y pynciau'n cynnwys:

- Dysgu mwy am y casgliad o anifeiliaid a phlanhigion rydym yn rhannu ein harfordir â nhw
- Canfod daeareg anhygoel Sir Benfro
- Archwilio arfer gorau a chodau ymddygiad er mwyn helpu i leihau aflonyddwch i'r eithaf
- Tynnu sylw at yr Ap Cod Morol, fel adnodd i adnabod a rhoi gwybod am fywyd gwyllt a welwyd



Er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am fanylion y digwyddiadau ac i gael rhagor o wybodaeth, cofrestrwch eich diddordeb ar ein tudalen diwrnod hyfforddiant Cod Morol yma: <https://www.pembrokeshiremarinecode.org.uk/marine-code-environmental-training-days/>

neu [cysylltwch â ni](https://www.pembrokeshiremarinecode.org.uk/contact-us/) ag unrhyw ymholiadau: <https://www.pembrokeshiremarinecode.org.uk/contact-us/>

Alec Denny
Fforwm Arfordir
Sir Benfro



Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru

Pwy yw Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru?

Fel y mae'r enw'n ei awgrymu, ni yw cangen Gorllewin Cymru o Ymddiriedolaeth Afonydd y DU ac rydym yn gweithredu ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n bosibl eich bod yn gwybod am Ymddiriedolaethau Afonydd llai a arferai fod yn eich ardal yn y gorffennol, ond yn ystod 2017 gwnaethom uno nifer o'r rhain er mwyn ehangu cyrhaeddiad ein gwaith.

Beth rydym yn ei wneud?

Rydym yn ymwneud â gwella a diogelu afonydd a'u bywyd gwyllt. Mae'r gwythiennau hanfodol hyn yn ein cefn gwlad dan fygythiad mawr, yn enwedig gan llygredd a rhwystrau sy'n amharu ar brosesau mudo cylch bywyd hanfodol. Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r materion sy'n effeithio ar ein hafonydd yn hollbwysig i ni ac rydym yn ymdrechu i gysylltu â phobl yn y gymuned.



Ein prosiectau presennol

Rydym yn ceisio datblygu ar ein sefydliad gweddol fach, ond yn teimlo bod ein prosiectau presennol yn cael dylanwad gwyb!

- Unioni pH y Doethie, un o brif lednentydd Afon Tywi. <http://westwalesrivertrust.org/an-update-on-the-doethie-in-river-sand-liming-and-leader-forestry-gully-liming-pilot-project/>
- Mae ein Cynghorwyr Dalgylch, Gareth a Jim, yn gweithio gyda'r ffermwyr yn nalgylchoedd Afon Ceri a Chleddau Wen, yn y drefn honno, er mwyn atal llygredd amaethyddol a gwella integreidd glan yr afon. <http://westwalesrivertrust.org/projects-partnership-is-the-key/>
- Yn ein barn ni mae cydweithredu'n allweddol ac rydym yn gweithio gyda Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, Cadwch Gymru'n Daclus, Cyngor Sir Caerfyrddin a Birch Farm Plasticser mwyn cael gwared ar sbwriel o bedair llednant Afon Tywi.
- Dan arweiniad Swyddog Morol Ardal Gadwraeth Arbennig Sir Benfro, hyfforddir gwirfoddolwyr i helpu menter SWEPT i gofnodi manylion amgylcheddol yn nyfrffordd Aberdaugleddau. <http://westwalesrivertrust.org/swept-surveying-the-waterway-environment-for-pollution-threats-volunteer-project-2018-19/>
- Rydym yn ehangu'r Cynllun Pasbort Pysgota ledled Gorllewin Cymru. Dylai hyn fod o ddiddordeb i bysgotwyr a pherchenogion glannau afon fel ei gilydd.

Yn y dyfodol

Maes o law, rydym yn gobeithio ymestyn ein rhaglen addysg 'Mabwysiadu Glan Afon' ledled y tair sir a sefydlu cynllun clirio rhwystrau mawr er mwyn gwella mynediad at safleoedd ble mae eog yn silio.

Rydym yn awyddus iawn i glywed am syniadau prosiect gwarchod afonydd ac addysg a allai fod gennych. Cysylltwch â ni ar info@westwalesrivertrust.org.

Cymerwch ran

Helpwch i ledaenu ymwybyddiaeth – dilynwch ni ar Twitter, hoffwch ni ar Facebook a chofrestrwch ar gyfer rhestr bostio ein gwefan er mwyn clywed pan gaiff ein herthyglau eu cyhoeddi.

Cynllun newydd i gefnogwyr – cyfrannwch at ein gwaith am gyn lleied â £15 ar gyfer y flwyddyn gyfan. Ymunwch fel teulu a chewch lyfryn Mabwysiadu Glan Afon hefyd.

Gwirfoddolwr – a oes gennych ddiddordeb mewn unrhyw un o'n prosiectau? Rhowch wybod i ni! Rydym yn chwilio yn benodol am wirfoddolwyr i'n helpu gyda'r prosiect SWEPT yn Sir Benfro a monitro pryfed afon ledled y rhanbarth. Darperir hyfforddiant ar gyfer y ddau. E-bostiwch info@westwalesrivertrust.org.

Kathy James

Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru



Rheoli Mynwent Llanion ar gyfer Natur



Mae tua 4,500 o eglwysi a chapeli yng Nghymru a dewis helaeth ac amrywiol o diroedd sy'n gartref i amrywiaeth eang o rywogaethau – mwsogl, llysiau'r afu, cen, ffyngau ac uwch blanhigion sydd, ynghyd â'r adeiladau, waliau terfyn a cherrig beddau, yn darparu cynefinoedd ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn-cefn a fertebratau fel ei gilydd.

Newidiwyd trefn torri gwairnun ardal ym Mynwent Llanion yn Noc Penfro, a reolir gan Gyngor Sir Penfro, yn ystod 2014. Dim ond y perimedr a llwybr a dorwyd yn rheolaidd drwy beth a ddaeth yn gynefin ddôl yn fuan.

Gwelodd haf 2018 fwrlwm o anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn bwydo ar laswellt, y bengaled frown a llygad llo mawr. Wedi'u gwasgaru drwy'r cyfan oedd tua 800 o Degeiriannau Cors y De *Dactylorhiza praetermissa* a 300 o Ganeiriannau Cyffredin *Neottia ovata*.

Trevor Theobald
Cyngor Sir Penfro



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Mawrth—Mai



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
03 Mawrth	Diwrnod Bywyd Gwyllt Byd-eang	Gwnaeth Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ddatgan mai 3 Mawrth, y diwrnod y cafodd y Confensiwn ar Fasnachu Rhyngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt sydd Dan Fygythiad ei lofnodi, fyddai Diwrnod Bywyd Gwyllt Byd-eang y Cenhedloedd Unedig i ddathlu a chodi ymwybyddiaeth o anifeiliaid a phlanhigion gwyllt y byd.	http://www.wildlifeday.org/
11 Mawrth 19:30	The Green Man and the Green Wood Canolfan Hamdden Hwlfordd	Ymunwch â grŵp lleol Canol Sir Benfro am sgwrs gyda Peter Hatherley o'r enw 'The Green Man and the Greenwood: tales of folklore and wildlife'. Y gost yw £2 ac mae'n cynnwys te/coffi a bisgedi.	John Steer: 01646 278966 neu biojohn@tiscali.co.uk
19 Mawrth 19:15	Canolfan Gymunedol Tŷ Ffowndri Ystad Ystagbwl	Ymunwch â grŵp lleol De Sir Benfro a Haydn Garlick a fydd yn dweud wrthym am ei waith ar ystad Ystagbwl a chyfraniad ei deulu dros y blynyddoedd.	chrissiejones58@gmail.com
06 – 21 Ebrill	Pythefnos Darganfod Parciau Cenedlaethol	Yn 2019 mae'r Wythnos Parciau Cenedlaethol yn newyd i Bythefnos Darganfod Parciau Cenedlaethol a bydd gŵyl flynyddol y Parciau Cenedlaethol i deuluoedd yn parhau i hyrwyddo popeth sy'n unigryw ac arbennig am y Parciau Cenedlaethol.	https://nationalparks.uk/visiting/national-parks-week
16 Ebrill	Helfa Ystlumod Castell Caeriw	Dewch o hyd i beth sy'n dod yn fyw wrth iddi dywyllu. Dysgwch fwy am yr hyn y mae'r creaduriaid nosol hyn sy'n anodd eu gweld yn ei wneud, a gwrandewch ar eu synnau ar ein synwryddion ecoleoliad. £4 fesul plentyn, £6 fesul oedolyn.	www.pembrokehsirecoast.wales/events 01437 720392
24 Ebrill 14:00 – 16:00	Taith Gerdded Blodau Gwyllt Freshwater East	Archwiliwch fannau blodau gwyllt poblogaidd cudd a dewch i adnabod ein casgliad ysblennydd o flodau gwyllt y gwanwyn a'r haf yn well. Ewch am dro gyda'n tywysydd a'n harbenigwr lleol wrth iddi rannu straeon ac awgrymiadau ar adnabod yn ogystal â sut i ddefnyddio ein fflora cyffredin at ddibenion meddyginiaethol, i goginio ac yn y cartref. £4 fesul person.	www.pembrokehsirecoast.wales/events 01437 720392
17 Ebrill 10:00 – 12:00	Dod o hyd i Ymlusgiaid	Ymunwch â'n ceidwad lleol er mwyn dod o hyd i ymlusgiaid sy'n anodd eu gweld a'u cynefinoedd ar hyd y rhan anhygoel hon o Lwybr yr Arfordir. Taith gerdded gymhedrol egniol. £4 fesul plentyn, £6 fesul oedolyn.	www.pembrokehsirecoast.wales/events 01437 720392

Digwyddiadau Bioamrywiaeth Mawrth—Mai



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
22 Ebrill 19:30 – 21:30	Helpa Ystlumod Llwybr yr Esgob Tyddewi	Dewch o hyd i beth sy'n dod yn fyw wrth iddi dywyllu. Dysgwch fwy am yr hyn y mae'r creaduriaid nosol hyn sy'n anodd eu gweld yn ei wneud, a gwrandewch ar eu synnau ar ein synwryddion ecoleoliad. £4 fesul plentyn, £6 fesul oedolyn.	www.pembrokehsirecoast.wales/events 01437 720392
01-31 Mai	Taith Gerdded yn y Goedwig	Taith Gerdded yn y Goedwig yw gŵyl y Tree Council i annog pawb i fwynhau coed a choedwigoedd. Ledled y DU, cynhelir teithiau cerdded, sgysiau a digwyddiadau eraill mewn trefi ac yng nghefn gwlad – gwahoddiad i fynd lawr i'r coedwigoedd neu i barc lleol neu fwynhau strydoedd sydd â choed bob ochr iddi. Mae blodau, adar yn canu a lliwiau'r dail yn eu gwneud yn arbennig o ddeniadol.	https://www.treecouncil.org.uk/Take-Part/Walk-in-the-Woods
05 Mai	Diwrnod Rhyngwladol Côr y Wig	Ymunwch â'r dechreuad cynnar i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Côr y Wig	http://www.idcd.info/
13 Mai	Taith Gerdded â Thywysydd, Ynys Sgomer	Ymunwch â Dave Astins o West Coast Birdwatching wrth iddo eich tywys o gwmpas Ynys Sgomer ar ddiwrnod lle mae'r ynys wedi cau i bawb arall. £49, heb gynnwys cost y cwch a delir ar y diwrnod.	ARCHEBU: 01656 724100 – (Dydd Llun - dydd Gwener 9am-5pm)
20 Mai	Taith Gerdded â Thywysydd, Ynys Sgomer	Ymunwch â Dave Astins o West Coast Birdwatching wrth iddo eich tywys o gwmpas Ynys Sgomer ar ddiwrnod lle mae'r ynys wedi cau i bawb arall. £49, heb gynnwys cost y cwch a delir ar y diwrnod.	ARCHEBU: 01656 724100 – (Dydd Llun - dydd Gwener 9am-5pm)
22 Mai	Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Amrywiaeth Fiolegol	Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi datgan mai Mai 22 fydd y Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Amrywiaeth Fiolegol (IDB) i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion bioamrywiaeth.	https://www.cbd.int/idb/
25 Mai 10:00 – 15:00	Adar y Môr a'r Nythod yn Stack Rocks	Galwch heibio ac edrychwch i weld pwy sydd wedi gwneud nyth ar y clogwyni môr dramatig o gwmpas Stack Rocks. Edrychwch i weld sawl wy a chyw y gallwch ddod o hyd iddynt, a sgwrsiwch â'n ceidwad lleol er mwyn dysgu mwy am fywydau a chynefinoedd y preswylwyr. Mae'r clogwyni'n fannau poblogaidd ar gyfer gwylogod a gweilch y penwaig, ymysg eraill.	www.pembrokehsirecoast.wales/events 01437 720392

Cylchlythyrau Natur

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PNSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PNSB

- Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth, Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Natur Sir Benfro gwefan: <https://www.sir-benfro.gov.uk/bioamrywiaeth>
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PNSB

amphibian and reptile
conservation



gwarchod

amffibiaid ac ymlusgiaid



bluestone
national park resort



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy



Plantlife



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



WEST WALES
BIODIVERSITY INFORMATION CENTRE
CANOLFAN WYBODAETH BIOAMRYWIAETH
GORLLEWIN CYMRU



Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen
12

